



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
BANGOR
Gwynedd LL57 2DW

Ebost/Email:
alison.brown@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 01248 387276

Mr Martin Bates
Cyfarwyddwr Prosiect
Yr Uned Prosiectau Seilwaith – Trafnidiaeth
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

14 Rhagfyr 2013

Annwyl Mr Bates

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – Ystyried yr opsiynau mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

Diolch ichi am roi'r cyfle i Dîm Asesu Strategol Cyfarwyddiaeth Lywodraethu Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig sylwadau ar Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd: Ystyriwyd yr opsiynau mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Gwneir ein sylwadau yng nghyd-destun ein cyfrifoldebau o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac fel cynghorwyr statudol i Lywodraeth Cymru ynghylch treftadaeth ac adnoddau naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol. Nid rôl y Tîm Asesu Strategol yw cynnig sylwadau ar y cynigion ar gyfer Coridor yr M4 ei hun. Caiff y materion hyn eu hystyried gan Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r De yn Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb ar wahân. Cyfyngir ein sylwadau ar safleoedd sydd wedi'u nodi i'r safleoedd hynny sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru. O ran y safleoedd hynny sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr, byddem yn eich cyfeirio at Natural England fel y corff cadwraeth natur priodol.

Mae ein sylwadau penodol ar yr adroddiad wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 at y llythyr hwn. Ceir sylwadau ar faterion allweddol isod.

- O ystyried teitl y ddogfen, *Ystyriaeth o'r Opsiynau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Ystyried Gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd [Consideration of the Options for the M4 Corridor around Newport with Regard to the Requirements of the Habitats Regulations]*, gofynnwn am eglurhad a yw hwn i gael ei ystyried yn ymgynghoriad ffurfiol o dan Reoliad 61 o'r Rheoliadau Cynefinoedd. Nodwn o Adran 1.1 y caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu defnyddio i lunio adroddiad a

Maes y Ffynnon Penrhosgarnedd BANGOR Gwynedd
LL57

2DW Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

datganiad Sgrinio (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) terfynol a fydd yn cyfrannu at asesiad priodol, a chymerwn fod hynny'n golygu yr ymgynghorir ymhellach â ni fel y corff cadwraeth natur priodol dros Gymru?

- Byddem yn awgrymu y dylai nifer o elfennau ychwanegol a phwysig o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael eu cynnwys. Yn wahanol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n pennu trefn asesu glir, nid yw'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ond yn creu gofyniad i ymgymryd â phroses asesu lle gallai cynllun neu brosiect effeithio ar Safle Ewropeaidd. Mae'r fframwaith ar gyfer proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i nodi yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac mae wedi esblygu yn sgil heriau cyfreithiol a chyfraith achos ledled Ewrop. Wrth ei gwneud yn ofynnol ystyried effaith cynllun ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses ac iddi ffocws penodol iawn a dim ond â Safleoedd Ewropeaidd y mae â wnelo hi.
- Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses pedwar cam. Er mwyn i gynllun neu brosiect gael ei gymeradwyo, rhaid dangos yn glir na chaiff unrhyw effaith niweidiol ar Safle Ewropeaidd. Ni ellir cytuno i gynllun/prosiect a allai fod yn niweidiol os oes atebion amgen. Rhaid un ai ei newid neu'i ddiwygio er mwyn osgoi effeithiau niweidiol, neu dylid ei wrthod. Cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud y cynllun/ymgeisydd y prosiect yw canfod atebion amgen a fyddai'n gwireddu amcan cyffredinol y cynllun/rhaglen. Gall atebion amgen gynnwys newidiadau o ran graddfa, lleoliad, llwybr neu amseriad, ac maent yn cynnwys 'cynigion amgen' y mae modd eu cyflawni yn rhywle arall a thrwy gynlluniau a phrosiectau eraill.
- Lle mae proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi sefydlu y bydd cynllun/prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd ac nad oes unrhyw gynigion amgen a fyddai'n cyflawni amcan cyffredinol y cynllun/rhaglen, dim ond am Resymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig y gall fynd yn ei flaen ac os gellir sicrhau mesurau gwneud iawn. Gall y Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig fod o natur gymdeithasol neu economaidd ac eithrio lle mae'r cynllun/prosiect arfaethedig yn effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau Ewropeaidd â blaenoriaeth. Os effeithir ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, dim ond am resymau iechyd y cyhoedd, diogelwch cyhoeddus, buddion amgylcheddol sylfaenol neu yn unol â barn a ddarparwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd y gellir hawlio Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig. Mae hanfodol yn golygu ei bod yn anhepgorol i'r cynllun/prosiect fynd rhagddo. Mae 'tra phwysig' yn golygu bod rhaid i fuddion y cynllun/prosiect orbwysu'r niwed i Safleoedd Ewropeaidd. O dan yr amgylchiadau eithriadol fod cynllun/prosiect niweidiol yn cael ei gymeradwyo lle nad oes atebion amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig, rhaid i'r awdurdod cymwys sicrhau mesurau gwneud iawn i wneud yn siŵr fod cydlynid cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 ar draws Ewrop yn ddiogel. Os nad oes mesurau gwneud iawn ar gael, mae'n annhebygol y bydd modd i Lywodraeth ganiatáu mabwysiadu/cymeradwyo'r cynllun/



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

prosiect. Dylai Mesurau gwneud iawn greu, ail-greu neu adfer cynefin tebyg a chyflawni'r un swyddogaethau ecolegol.

- Ni allwn gytuno â rhai o gasgliadau'r asesiadau yn ymwneud ag effeithiau arwyddocaol tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd. Gweler Atodiad 1 at y llythyr hwn.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r sylwadau hyn, mae croeso ichi gysylltu ag Alison Brown yn ein swyddfa ym Maes y Ffynnon ym Mangor.

Yn gywir

Clive Thomas
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu

Atodiad 1:

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd - Ystyried yr opsiynau mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd

1: Cyflwyniad

Nodwn y datganiad mai prif elfen y Cynllun drafft yw darparu traffordd dair lôn, sy'n cael ei dangos fel y llwybr du. Fel y'i hysgrifennwyd, mae hyn yn awgrymu bod y llwybr a ffefrir eisoes wedi cael ei 'ddewis' a bod llwybrau eraill (y Llwybrau Coch a Phorffor), ac opsiynau amgen wedi cael eu diystyru o'r Cynllun drafft. Byddem yn croesawu eglurhad o gofio mai diben y prosesau asesu gofynnol ar gyfer y Cynllun hwn (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) yw 'cyfrannu at' y broses benderfynu.

Nodwn a chroesawn y bwriad i gynnal astudiaeth ar wahân o'r cynigion yn ymwneud â mesurau trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n siomedig nad oes modd cynnwys y materion trafndiaeth gyhoeddus hyn yn y broses asesu, un ai yng nghyd-destun 'dewisiadau amgen rhesymol' neu fel mesurau lliniaru posibl o safbwynt effeithiau niweidiol arwyddocaol.

1.2: Byddem yn awgrymu y dylai nifer o elfennau ychwanegol a phwysig o broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael eu cynnwys. Yn wahanol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n pennu trefn asesu glir, nid yw'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ond yn creu gofyniad i ymgymryd â phroses asesu lle gallai cynllun neu brosiect effeithio ar Safle Ewropeaidd. Mae'r fframwaith ar gyfer proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i nodi yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac mae wedi esblygu yn sgil heriau cyfreithiol a chyfraith achos ledled Ewrop. Wrth ei gwneud yn ofynnol ystyried effaith cynllun ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses ac iddi ffocws penodol iawn a dim ond â Safleoedd Ewropeaidd y mae â wnelo hi.

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses pedwar cam. Er mwyn i gynllun neu brosiect gael ei gymeradwyo, rhaid dangos yn glir na chaiff unrhyw effaith niweidiol ar Safle Ewropeaidd. Yn ddelfrydol, dylid ymgymryd â'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu cynllun/prosiect. Mae hyn yn golygu bod modd addasu a diwygio'r cynllun/prosiect ei hun er mwyn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ac ystyried cynigion amgen na fyddent efallai yn effeithio'n niweidiol o gwbl ar Safleoedd Ewropeaidd neu a gâi lai o effaith niweidiol. Mae ôl-osod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gynllun/prosiect sydd wedi'i ddatblygu'n llawn yn anodd ac mae'n tansilio'r gallu i ystyried opsiynau a chynigion amgen llai niweidiol.

Atebion Amgen

Ni ellir cytuno i gynllun/prosiect a allai fod yn niweidiol os oes atebion amgen. Rhaid un ai ei newid neu'i ddiwygio er mwyn osgoi effeithiau niweidiol, neu dylid ei wrthod. Cyfrifoldeb y sawl sy'n gwneud y cynllun/ymgeisydd y prosiect yw canfod atebion amgen a fyddai'n

gwireddu amcan cyffredinol y cynllun/ rhaglen. Gall atebion amgen gynnwys newidiadau o ran graddfa, lleoliad, llwybr neu amseriad, ac maent yn cynnwys 'cynigion amgen' y mae modd eu cyflawni yn rhywle arall a thrwy gynlluniau a phrosiectau eraill.

Achosion Eithriadol a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig a Mesurau Gwneud iawn

Lle mae proses yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi sefydlu y bydd cynllun/prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd ac nad oes unrhyw gynigion amgen a fyddai'n cyflawni amcan cyffredinol y cynllun/rhaglen, dim ond am Resymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig y gall fwrw ymlaen ac os gellir sicrhau mesurau gwneud iawn.

Gall y Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig fod o natur gymdeithasol neu economaidd ac eithrio lle mae'r cynllun/prosiect arfaethedig yn effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau Ewropeaidd â blaenoriaeth. Os effeithir ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, dim ond am resymau iechyd y cyhoedd, diogelwch cyhoeddus, buddion amgylcheddol sylfaenol neu yn unol â barn a ddarparwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd y gellir hawlio Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig. Mae hanfodol yn golygu ei bod yn anhepgorol i'r cynllun/prosiect fynd rhagddo. Mae 'tra phwysig' yn golygu bod rhaid i fuddion y cynllun/prosiect orbwysu'r niwed i Safleoedd Ewropeaidd.

O dan yr amgylchiadau eithriadol fod cynllun/prosiect niweidiol yn cael ei gymeradwyo lle nad oes atebion amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig, rhaid i'r awdurdod cymwys sicrhau mesurau gwneud iawn i wneud yn siŵr fod cydlynid cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 ar draws Ewrop yn ddiogel. Os nad oes mesurau gwneud iawn ar gael, mae'n annhebygol y bydd modd i Lywodraeth ganiatáu mabwysiadu/cymeradwyo'r cynllun/prosiect. Dylai Mesurau gwneud iawn greu, ail-greu neu adfer cynefin tebyg a chyflawni'r un swyddogaethau ecolegol.

1.3: Dylid cyfeirio'n benodol at yr ystyriaeth a roddwyd i effeithiau 'o'u cyfuno'.

2: Nodwn y cyfeiriad at dagfeydd yn ystod 'cyfnodau brys ar ddiwrnodau gwaith'. Byddem yn croesawu eglurhad pa un a yw tagfeydd wedi'u cyfyngu i'r cyfnodau amser hyn.

3.1: Nodwn y datganiad nad yw'r problemau'n ymwneud â rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (M4 CEM) wedi newid ac na chawsant felly eu hailystyried. Mae'n ymddangos bod y datganiad hwn yn croesddweud braidd y bwriad sydd wedi'i ddatgan i gynnal astudiaethau i fesurau trafniadaeth gyhoeddus.

5.1.1: Nodwn y bwriad i 'ymchwilio' i strategaeth ar gyfer cyffyrdd pe bai'r 'Llwybr Du' yn cael ei fabwysiadu. Bwriad proses yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yw ystyried effeithiau arwyddocaol tebygol cynigion y cynllun ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd ac mae'n ymddangos yn amhriodol i elfen sy'n rhan o'r cynllun hwn gael ei gohirio, er mwyn 'ymchwilio' iddi yn y dyfodol. Mae'r methiant i gynnwys

strategaethau cyffyrdd o fewn cynigion y Llwybr Du yn tanseilio gallu'r broses asesu hon i ystyried yr holl effeithiau arwyddocaol posibl (yn rhai positif a negyddol), ar y lefel strategol.

5.2.1: Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn â pham nad oes mesurau cyfnewidfeydd a chyffyrdd (fel a gynigir ar gyfer y Llwybr Du) wedi cael eu cynnwys yn y mesurau ategol ar gyfer y Llwybr Coch.

6: Argymhellir bod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys awdurdodau a sefydliadau perthnasol yn ogystal â'r corff cadwraeth natur statudol.

Byddem yn croesawu eglurhad pa un a yw'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, Cyfrol 11, Adran 4 HD44.09 wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau yng ngoleuni cyfraith achosion ddiweddar a diwygiadau i'r Gyfarwyddeb Adar a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

6.4.1: Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth fod rhywogaethau symudol sy'n nodwedd o safleoedd Natura 2000 yn cael eu canfod y tu allan i derfyn dynodedig y safle ACA/AGA/Ramsar. Nodwn, fodd bynnag, mai'r gofyniad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yw i'r Awdurdod Cymwys benderfynu pa un a yw'r cynllun (yn yr achos hwn) yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd – nid oes a wnelo'r prawf hwn â phellter, rhaid ei gynnal o'r safbwynt a oes mecanwaith neu gyfrwng ar gyfer effaith arwyddocaol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn rydym yn fodlon fod y radiws 30km oddi wrth lwybr y cynllun yn ddigon rhagofalus i sicrhau bod yr holl safleoedd y mae'n bosibl yr effeithid arnynt wedi cael eu sgrinio.

6.4.3: Byddem yn awgrymu y dylai'r strategaethau a'r cynlluniau ar gyfer Dŵr Cymru/Welsh Water gael eu cynnwys o fewn yr asesiad o effeithiau 'cyfunol'.

6.4.4: Mae angen eglurhad ynglŷn â'r hyn a ddeallir gan 'niwed' i linellau hedfan.

Cytunwn y dylai effeithiau pob un o'r tri aliniad gael eu hasesu yn yr un ffordd o ran pob croesfan ar draws afon Wysg, o gofio natur strategol yr ymgynghoriad hwn, ac nad oes unrhyw fanylion dylunio am y groesfan ar draws yr afon ar y cam hwn

7: Cytunwn fod y safleoedd cywir wedi cael eu sgrinio, fel y nodir yn Nhabl 5, a bod y nodweddion cywir o ddiddordeb wedi cael eu nodi. Fodd bynnag, er mwyn dilysrwydd, argymhellwn fod enwau'r safleoedd yn cael eu cywiro i'r enwau sydd wedi'u defnyddio yn y dynodiad cyfreithiol, e.e. Safleoedd Ystlumod Wysg / Usk Bat Sites. Gellir cael yr enwau cywir oddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

8: Mae nifer o'r cynlluniau a'r prosiectau a nodwyd wedi cael eu diweddarau neu'u hadolygu. Awgrymir bod y rhestr hon yn cael ei diweddarau. Yn ôl proses yr Asesiad

Rheoliadau Cynefinoedd mae'n ofynnol ystyried cynlluniau a phrosiectau – fodd bynnag, nid oes unrhyw brosiectau wedi cael eu nodi yn Adran 8. Mae angen rhagor o wybodaeth.

9: Tabl 7

Cytunwn â'r farn a gyflwynir yn Nhabl 7 am effaith arwyddocaol debygol h.y. ei bod yn debygol y bydd bwrw ymlaen ag un o'r opsiynau ffordd newydd yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar ACA Afon Wysg, ACA, AGA a safle Ramsar Môr Hafren, ACA Safleoedd Ystumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, a bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol ar bob safle Ewropeaidd arall sydd wedi'i restru yn y tabl hwn sydd un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru. Fodd bynnag, o ran y safleoedd hynny sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr, cyfeiriwn chi at Natural England fel y corff cadwraeth natur priodol i'r safleoedd hynny.

8: Tabl 8.

Mae'n ddiddorol gennym nodi'r testun isod ynglŷn ag ACA Afon Wysg ac ACA a safle Ramsar Môr Hafren, yng nghyd-destun effaith bosibl – "*Barrier to migration caused by piers within river channel*". Mae'r datganiad hwn yn awgrymu rhyw ystyriaeth i ddyluniad y ffordd a'r bont nad yw wedi cael ei rhannu â ni, er y byddem yn cytuno ei bod yn debygol y byddai effaith arwyddocaol pe câi'r bont ei dylunio yn y ffordd hon. Rydym wedi drysu hefyd ynglŷn â'r cyfeiriad at ddwy groesfan ar draws afon Wysg a gofynnwn am eglurhad ynglŷn â'r pwynt hwn. Dyma ein sylwadau pellach ynglŷn â Thabl 8:

ACA Afon Wysg

Cytunwn â'r asesiad o effeithiau mewn perthynas ag eogiaid, herlod a gwangod, llysywod pendoll a llysywod pendoll y môr. Rydym yn cytuno â sgrinio allan y penlletwad, llysywen bendoll y nant a nodweddion cyrsiau dŵr. O ran dyfrgwn, mae potensial i gollu cynefin (dros dro ac yn barhaol) yn ogystal â chyfyngu ar eu symudiadau dros dro ac o bosibl yn barhaol yn ystod y camau adeiladu a gweithredol – yn niffyg unrhyw ddylunio, ni ellir diystyru'r ffactorau hyn ar y cam cynllunio. Rydym, fodd bynnag, yn siomedig nad oedd unrhyw effaith wedi cael ei nodi mewn perthynas â'r Llysywen yn ACA Afon Wysg,. Er nad yw llysywod yn nodwedd o ACA Afon Wysg, maen nhw'n bresennol ar y safle hwn ac maent yn nodwedd Ramsar o safle Ramsar Môr Hafren.

ACA Môr Hafren

Cytunwn â'r asesiad o'r effeithiau posibl ar nodweddion, gan nodi'r sylw a wnaed gennym uchod ynglŷn â cholofnau pont yn yr afon, a hefyd y rhagdybiaeth fod arferion adeiladu da i gael eu hymgorffori i osgoi materion llygredd, ac y caiff hynny ei roi ar waith yn drylwyr.

AGA Môr Hafren

Anghytunwn â'r asesiad mewn perthynas â nodweddion cymwys unigol yn ymwneud ag adar. Er ein bod yn cydnabod mai ychydig o dystiolaeth a fu'n hanesyddol fod y rhywogaethau hyn yn defnyddio Gwastadeddau Gwent, mae'n bosibl fod y sefyllfa hon

wedi newid erbyn hyn yn arbennig oherwydd newidiadau yn y ffordd y rheolir cynefinoedd, mewn perthynas â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd. Hefyd, mae'r rhywogaethau unigol o adar hirgoes sy'n gymwys o fewn yr AGA (pibydd y mawn a phibydd y gors), yn ogystal â'r rhai yn y cynulliad adar, yn debygol o fod yn bresennol ar estyniadau llanw afon Wysg. Credwn ei bod yn rhy gynnar felly i asesu ar y cam hwn ei bod yn annhebygol y bydd effaith arwyddocaol. Byddem yn disgwyl i waith arolygu gael ei wneud fel rhan o unrhyw waith ar lefel prosiect, i gynyddu'r sylfaen tystiolaeth. O ran y cynulliad adar rydym yn cytuno â'r asesiad, ond rydym yn argymhell y dylid ei ehangu i gynnwys defnydd tebygol o afon Wysg, yn ogystal â Gwastadeddau Gwent, fel yr amlinellwyd uchod.

Nodwn hefyd nad oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddadleoli poblogaethau adar, er enghraifft yn ystod gwaith adeiladu, ac effeithiau posibl dadleoli rhywogaethau ar AGA Môr Hafren.

Safle Ramsar Môr Hafren (nodweddion adar):

Yr un yw ein sylwadau ag ar gyfer AGA Môr Hafren uchod. Er ein sylwadau uchod ynglŷn â cholofnau pont, ni allwn gytuno'n llwyr â'ch sylw ynglŷn â'r cynulliad o bysgod mudol o ran safle Ramsar Môr Hafren. Dylid ystyried yr effeithiau posibl ar y Llisywen yng nghydestun ei symudiadau o fewn ACA Afon Wysg a chysiau dŵr llai ar wastadeddau Gwent. Rydym yn cytuno â sgrinio allan nodweddion Dolydd Heli'r Iwerydd a Moryd.

ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena

Cytunwn â'r asesiad mewn perthynas ag ystlumod pedol lleiaf. O ran ystlumod pedol mwyaf, credwn ei bod yn rhy gynnar i ddiystyru effeithiau arwyddocaol tebygol ar hyn o bryd, yn niffyg unrhyw waith monitro rhwng ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena a Chastell Rhiw'r Perrai.

10: O ystyried teitl y ddogfen, *Ystyriaeth o'r Opsiynau ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Ystyried Gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd [Consideration of the Options for the M4 Corridor around Newport with Regard to the Requirements of the Habitats Regulations]*, mae'r drafodaeth yn Adran 10 ynglŷn â'r effaith debygol ar Amcanion Cadwraeth yn ddrislyd a byddem yn croesi eglurhad ynglŷn ag â pha agwedd o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y mae hyn yn ymdrin. Rydym yn cymryd mai â'r gwaith a fydd yn cyfrannu at asesiad priodol yn y dyfodol y mae a wnelo, ond nid yw hyn yn glir.

10.1.1 ACA Afon Wysg: Er gwaethaf ein sylwadau ar Dabl 8 uchod, o ystyried y diffyg manylion am strwythur unrhyw bont (ac rydym yn cydnabod bod hynny i'w ddisgwyl ar y lefel strategol hon), credwn ei bod yn rhy gynnar i allu diystyru effeithiau niweidiol ar nodweddion pysgod mudol ar y cam hwn.

10.1.2 ACA Afon Wysg: Cytunwn y gallai fod yn bosibl osgoi effeithiau niweidiol ar nodwedd dyfrgwn ACA Afon Wysg drwy ddulliau gweithio yn ystod y cam adeiladu a thrwy gadw cynefin bridio/gorffwys addas lle mae hynny'n briodol.

10.2.1 ACA, AGA a safle Ramsar Môr Hafren: Cyfeiriwn chi at y sylwadau a wnaed gennym mewn perthynas â 10.1.1 uchod. Mae angen ystyried effeithiau posibl y cynigion ymhellach yn nghyd-destun y Llisywen.

10.2.2 ACA, AGA a safle Ramsar Môr Hafren: Cyfeiriwn chi at y sylwadau a wnaed gennym mewn perthynas ag Adran 8 uchod. Mae hyn ynghyd â'r ffaith ein bod yn cytuno bod rhywfaint o ddefnydd yn cael ei wneud o Wastadeddau Gwent gan adar cynulliad yr AGA yn golygu ei blod hi yn ein barn ni yn rhy gynnar i ddiystyru effeithiau niweidiol ar y cam hwn, yn niffyg gwybodaeth arolygu fanwl a gwybodaeth fanwl am ddyluniad y ffordd.

10.3 AC A Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena: Nodwn a chytunwn â llawer o'r ymresymiad a roddwyd yma. Fodd bynnag, yn niffyg dylunio manwl, ni allwn gynnig barn ynglŷn â'r arwyddocâd sy'n deillio o golli llinellau hedfan. Credwn felly ei bod yn rhy gynnar inni ddiystyru effeithiau niweidiol ar y lefel gynllunio strategol hon.